

Cyngor Sir Gâr

Cynllun Iaith Gymraeg

Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg

2014-15

Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg

Pennod	Teitl	Tudalen
1.	Cyflwyniad	3
2.	Cydymffurfio â'r Cynllun	3
3.	Ansawdd gwasanaethau rheng flaen yn Gymraeg	6
4.	Rheolaeth a gweinyddiad y Cynllun	8
5.	Digonolrwydd sgiliau ieithyddol drwy gymharu'r angen â'r adnoddau	10
6.	Prif ffrydio	15
7.	Dadansoddiad o berfformiad fesul blaenoriaeth / targed	21
8.	Cyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad	22
9.	Dangosyddion Cynllun Iaith	22
10.	Manylion cyswllt	24

1. Cyflwyniad

Dyma'r adroddiad blynyddol ar gyfer gweithrediad Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Sir Gâr am y cyfnod 2014-15.

Mae'r wybodaeth isod yn grynodeb o'r perfformiad yn erbyn y dangosyddion a nodir yn adran 4 o Gynllun Iaith y Cyngor, ac mae'r adroddiad wedi ei strwythuro yn unol â chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg.

Yr isadran Adfywio a Pholisi sydd yn arwain ar y Cynllun Iaith a'i weithrediad. Y Prif Weithredwr Cynorthwyol yw'r swyddog arweiniol am y Cynllun ac am gydlynu cydymffurfiaeth ar draws yr awdurdod gyda'r Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth eraill. Mae'r Swyddog Polisi a Phartneriaeth a Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn gweithio yn yr isadran hon.

Mae'r Uned Gyfieithu yn rhan o'r isadran Rheoli Pobl a Pherfformiad sydd hefyd yn Adran y Prif Weithredwr. Yn ogystal â'r Uned Gyfieithu, mae'r tîm Polisi a Phartneriaeth yn cydweithio'n agos â'r Tîm Addysg Gymunedol a'r Tîm Dysgu a Datblygu.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg 2011-2014 a ddaeth i rym ar 14 Mawrth 2011 sy'n parhau â'r nod o feithrin dwyieithrwydd ar draws y Cyngor a gwella gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr adrannau.

2. Cydymffurfio â'r Cynllun

Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg 2011-2014 ym mis Mawrth 2011 a datblygwyd y Cynllun mewn partneriaeth â'r Gweithgor a'r Panel Ymgynghorol ac yng nghyd-destun polisiau cenedlaethol megis y Mesur Iaith a gytunwyd yn 2011.

Yn dilyn canlyniadau Cyfrifiad 2011 a'r dirywiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr, cytunodd yr aelodau etholedig mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn i sefydlu Gweithgor er mwyn ystyried pa ffactorau arweiniodd at hyn. Yn dilyn y casglu tystiolaeth oddi wrth

amryw o arbenigwyr, sefydliadau a mudiadau, cyflwynodd y Gweithgor 73 o argymhellion ar draws 8 maes blaenoriaeth i'r Cyngor llawn. Derbyniwyd cymeradwyaeth y Cyngor llawn ym mis Ebrill 2014 ac ers hynny mae'r adrannau wedi bod yn gweithio trwy'r cynllun gweithredu ar gyfer yr argymhellion sy'n ymwneud â'r wyth maes isod:

- Addysg
- Cynllunio
- Iaith ac Economi
- Gweithleoedd cyfrwng Cymraeg a gweinyddiaeth Cymraeg
- Effaith sefydliadau sy'n gweithio er budd y Gymraeg megis y Mentrau Iaith
- Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng nghymunedau'r sir
- Trosglwyddiad iaith yn y teulu
- Marchnata'r iaith.

Bwriad yr adroddiad yw atgyfnerthu'r sefyllfa bresennol ac adeiladu i'r dyfodol tra'n parchu'r iaith Gymraeg yn y sir. Rydym ni fel Cyngor Sir yn cydnabod bod gennym rôl allweddol wrth ystyried nifer o safbwyntiau amrywiol gan gynnwys ein hymagweddau at addysg, cynllunio, datblygu economaidd, cefnogaeth gymunedol ac ati. Yn ogystal, y Cyngor yw un o gyflogwyr mwyaf y sir ac felly un o'r ffyrdd y gallwn gefnogi datblygiad yr iaith yw annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg a meithrin hyder staff i ddefnyddio'r iaith o fewn y gweithle. Un o ddyheadau'r Gweithgor oedd cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle er mwyn medru creu amgylchedd naturiol dwyieithog o fewn y Cyngor, boed hynny wrth ddelio gyda chwsmeriaid a thrigolion y sir neu o fewn gwaith mewnol y Cyngor. Cydnabuwyd yn yr adroddiad na fyddai hyn yn digwydd dros nos ond gellid cyflawni cynnydd graddol.

Gellir gweld yr adroddiad ar wefan y Cyngor.

Un o argymhellion 'Gweithleoedd cyfrwng Cymraeg a gweinyddiaeth Cymraeg' yw diwygio Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor er mwyn adlewyrchu disgwyliadau'r Safonau Iaith newydd. Mae'r adran Adnoddau Dynol mewn partneriaeth a'r Tîm Polisi a Phartneriaeth wedi paratoi drafft newydd o'r Strategaeth Sgiliau Iaith a bydd y ddogfen yn mynd trwy broses

gorfforaethol y Cyngor cyn hir. Prin yw'r recriwtio sy'n digwydd o fewn adrannau oherwydd yr hinsawdd economaidd ac felly mae'n gyfle i ni fel Cyngor i ganolbwyntio ar gefnogi ein staff presennol i wella eu sgiliau ac i feithrin hyder yn y Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, rydym wedi bod yn parhau i weithio i sicrhau bod y ddarpariaeth o ran dysgu a gloywi iaith yn effeithiol a hynny yn ystod ac ar ôl amser gwaith. Rydym yn parhau gyda chytundeb â'r dysgwyr sy'n gosod isafswm presenoldeb o 80% ar yr holl gyrsiau er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn ymwybodol o'r ymrwymiad sydd angen i ddysgu'r iaith. Ar gyfer y flwyddyn academiaidd Medi 2013 tan Medi 2014, llwyddodd pob un o'r dysgwyr i wireddu'r cytundeb yma. Mae'n ofynnol hefyd iddynt eistedd arholiad yn dilyn dwy flynedd o'r cwrs. Parhawyd â'r gwaith o ran darparu cyrsiau gloywi iaith (llafar ac ysgrifenedig) a hynny drwy'r cyrsiau a ddatblygwyd gan y tiwtoriaid.

Mae'r heriau sy'n wynebu'r Uned Gyfieithu yn dal i gynyddu, a hynny yn benodol o ran gwaith partneriaeth y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Uned wedi bod yn parhau i annog swyddogion i ystyried unrhyw waith cyfieithu wrth sefydlu partneriaeth, yn hytrach na chymryd yn ganiataol mai Uned y Cyngor sy'n gyfrifol am y gwaith. Oherwydd y pwysau gwaith sydd ar yr Uned, bydd rhaid blaenoriaethu gwaith, er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau. Mae'r Uned wedi parhau i ddatblygu'r system Déjà Vu, gan adeiladu stôr o gyfieithiadau, termau a geirfa safonol.

Mae canllawiau manwl wedi eu cyhoeddi at ddefnydd yr holl staff ar bob agwedd o'r Cynllun Iaith ac yn cynnig iddynt bwyntiau gweithredu syml a manylion cyswllt ar gyfer swyddogion mewnlol ac asiantaethau allanol a all fod o gymorth. Mae'r staff hefyd wedi derbyn copïau o lawlyfr "Cyfleu eich Neges" sy'n amlinellu'r ddarpariaeth o ran dogfennau hygyrch a dulliau eraill o gyfathrebu.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau â'r ffocws ar wella safonau yn holl wasanaethau'r Cyngor Sir. Un elfen o'r gwaith yw annog cwsmeriaid i roi sylwadau a chwyno lle bo'n briodol ynglŷn â gwasanaethau. Ers sefydlu'r Tîm Gwella Gwasanaethau yn ystod 2011-12 rydym wedi cydweithio'n agos er mwyn monitro unrhyw gwynion ynghyd â llunio cyfres newydd o

lawlyfrau i gwsmeriaid yn esbonio'r weithdrefn gwynion, canmoliaeth a sylwadau. Rydym hefyd wedi gwella ar ein meddalwedd cofnodi cwynion, ac mae ymholiadau ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg / gwasanaethau dwyieithog yn cael eu cofnodi mewn categori penodol ar y feddalwedd. Mae cwynion a sylwadau yn cael eu hamlygu mewn adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu priodol, y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Aelod Bwrdd Gweithredol.

Rydym wedi parhau i ychwanegu gwybodaeth ar y parth Cymraeg ar fewnrwyd y Cyngor, a ddatblygwyd fel rhan o brosiect 'Hyrwyddo Gweithleoedd Dwyieithog' Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r parth yn adnodd defnyddiol i staff i gyrchu gwybodaeth, terminoleg, templedi, sgwrsio â chydweithwyr, derbyn gwybodaeth am ddigwyddiadau ynghyd â safle i'r staff sy'n dysgu Cymraeg. Mae'r parth yn adnodd pwysig i gynorthwyo ac annog staff i weithio'n ddwyieithog.

Wrth i'r Cyngor fuddsoddi fwyfwy mewn technoleg e-ddysgu, mae cyfle euraidd i ni o ran hyrwyddo dewis iaith yn ein gweithle, a sicrhau fod staff yn hyderus wrth ddilyn modiwlau a chyrtsiau cyfrwng Cymraeg. Mae'r swyddogion Dysgu a Datblygu bellach yn sicrhau fod gofynion dwyieithrwydd yn cael eu hystyried wrth baratoi manylebau ac wrth gytuno ar dargedau gyda darparwyr mewnol ac allanol.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm Polisi a Phartneriaeth wedi parhau i weithio'n agos gydag adrannau

- Hamdden
- Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai.

3. Ansawdd gwasanaethau rheng flaen yn Gymraeg

Dangosydd Iaith Gymraeg 2 - Nifer a % swyddi'r prif dderbynfeydd a chanolfannau cyswllt a gafodd eu dynodi'n rhai lle mae'r Gymraeg "yn hanfodol", ac a gafodd eu llenwi gan staff dwyieithog

Dynodwyd 100% o swyddi'r prif dderbynfeydd yn rhai Cymraeg hanfodol yn unol â Strategaeth Sgiliau Iaith cyfredol y Cyngor. Ni hysbysebwyd unrhyw swyddi yn ystod y flwyddyn, ac mae 44 o swyddi yn rhan o dîm 'Galw Sir Gâr' ac mae pob un ohonynt yn rhugl yn y ddwy iaith. Fel rhan o ddatblygiad parhaus yr unigolion yma, maent oll wedi mynychu cyrsiau gloywi iaith ac ymwybyddiaeth iaith yn y gweithle.

Dangosydd iaith 5 - Nifer y cwynion a gafwyd ynglŷn â gweithrediad y Cynllun iaith, a % y cwynion a gafodd sylw yn ôl safonau corfforaethol y Cyngor.

Derbyniwyd 8 o gwynion yng nghyd-destun y Cynllun iaith yn ystod y flwyddyn. Ymdriniwyd â'r rhan fwyaf ohonynt yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor, sef 10 diwrnod gwaith.

1. Derbyniwyd cwyn nad oedd tudalen i ddewis iaith wrth gyrraedd gwefan 'Fy Mhensiwn Ar-lein' gan Gronfa Bensiwn Dyfed a bod y wefan yn dewis iaith ar gyfer y defnyddiwr yn ôl gosodiadau'r porwr. Mae'r adran wedi mynd nôl at y cwmni er mwyn cael dyfynbris am ychwanegu tudalen glanio a fyddai'n gofyn i'r defnyddwyr am eu dewis iaith.
2. Derbyniwyd cwyn am ddiffyg defnydd o'r iaith Gymraeg yng Ngŵyl Rhyfeddodau Rhydaman gan fod y Cyngor wedi cyfrannu at gostau'r llwyfan, y system sain a'r rhaglen. Yn ystod trefnu'r digwyddiad, dim ond copi o glawr blaen a chefn y rhaglen a dderbyniodd y Cyngor gyda'r addewid byddai'r rhaglen yn ddwyieithog. Ni osodwyd canllawiau digon llym i'r trefnwyr lleol. Ers hynny mae'r Cyngor wedi datblygu meini prawf ar gyfer rhoi nawdd i wyliau cymunedol.
3. Derbyniwyd cwyn am lythyr a anfonwyd i aelod o'r cyhoedd yn Saesneg yn unig. Ymddiheurwyd i'r achwynydd am y camgymeriad a'i sicrhau bydd pob gohebiaeth yn y dyfodol yn ddwyieithog.
4. Derbyniwyd e-bost gyda'r cwynion isod:
 - a. Cwyn yn cyfeirio at beiriannau talu am barcio yn troi'n ôl i'r Saesneg ar ôl talu. Mae'r adran yn ymchwilio i osod y Gymraeg fel yr iaith ddiofyn.
 - b. Cwyn yn sôn am orfod dewis y Gymraeg ar beiriannau benthyg llyfrau newydd yn llyfrgelloedd y sir gyda'r Saesneg yn ailymddangos ar ôl gorffen. Eglurwyd nad oes modd newid y sgrin gyntaf i fod yn Gymraeg yn barhaol.

- c. Cwyn bod llythyr uniaith Saesneg wedi cael ei anfon oddi wrth yr Adran Gofrestru am Briodasau gyda nodyn ar y gwaelod yn nodi bod y llythyr yn Saesneg yn unig oherwydd yr amserlen i ddychwelyd gwybodaeth i'r Llywodraeth. Ymddiheurwyd i'r achwynydd ac atgoffwyd yr adran am Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a'r angen i anfon gohebiaeth yn ddwyieithog.
 - d. Cwyn am gyfeiriadau uniaith Saesneg sydd ar wefan lleoli. Bydd yr adran berthnasol yn gwneud ymholiadau pellach.
5. Derbyniwyd cwyn nad oedd modd gweld gwybodaeth am ddigwyddiad yn y sir ar-lein yn Gymraeg. Roedd yr achwynydd wedi darllen erthygl ar ochor Gymraeg Newyddion Sir Gâr ac wedi cael cyfarwyddiadau i fynd i'r wefan am fwy o wybodaeth. Trafodwyd y mater gyda'r adran a nododd yr adran byddai pob neges yn ddwyieithog yn y dyfodol.
 6. Derbyniwyd cwyn am anghysondeb rhwng gwybodaeth Cymraeg a Saesneg ar wefan llyfrgelloedd y Cyngor. Ymddiheurwyd i'r achwynydd a diweddarwyd yr wybodaeth ar ochor Gymraeg y wefan.
 7. Derbyniwyd cwyn am arwydd gyda chamsillafiad ym Mharc Pembre. Ymddiheurwyd i'r achwynydd a chywirwyd yr arwyddion gwallus.
 8. Derbyniwyd cwyn am ddiffyg hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i Lywodraethwyr ysgolion. Nododd yr Adran Addysg eu bônt yn gobeithio cynyddu'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

4. Rheolaeth a gweinyddiad y Cynllun

Dangosydd Iaith Gymraeg 1 - Nifer a % y cyrff 3ydd parti gafodd eu monitro sy'n darparu yn unol â gofynion Cynllun Iaith Gymraeg yr awdurdod gan ystyried:-

- i) contractau gofal cymdeithasol
- ii) contractau sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc

iii) contractau ar gyfer darpariaeth cyn oed ysgol

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi asesu manylebau, amlenni tendr, holiaduron a chanllawiau am eu cynnwys yng nghyd-destun y Cynllun Iaith. Wrth edrych ar y contractau gofal cymdeithasol, rydym hefyd wedi edrych ar y niferoedd o staff trydydd parti sy'n gallu darparu gwasanaeth yn ddwyieithog.

Mae holl gyfundebau'r Cyngor yn cael eu sianelu drwy'r Uned Gaffael ac mae'r swyddogion caffael yn ymwybodol o'r angen i fanylu o ran y dyletswyddau ac yn barod i gynorthwyo adrannau i baratoi'r manylion hynny. Mae'r polisi caffael hefyd yn cynnwys gwybodaeth safonol ar yr iaith Gymraeg.

Rydym hefyd wedi edrych ar drefniadau trydydd parti o fewn ein partneriaeth gaffael ranbarthol, ac wedi cynnwys cymalau pendant ynglŷn â'r Gymraeg yn ein cytundeb. Bydd hyn yn sicrhau ystyriaeth o'r Gymraeg pan fydd y Cyngor yn caffael gwasanaethau ar y cyd â sefydliadau eraill. Mae'r ffurflenni caffael wedi'u diweddarau yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ac yn cynnwys gwybodaeth am Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm polisi a phartneriaeth wedi cydweithio yn agos gyda'r uned caffael wrth iddynt gefnogi adrannau i baratoi manylebau a holiaduron contract. Er bod gwybodaeth gyffredinol yn cael ei gynnwys ymhob cytundeb, mae'n hanfodol asesu'r angen am wybodaeth fanylach.

5. Digonolrwydd sgiliau ieithyddol drwy gymharu'r angen â'r adnoddau

Dangosydd Iaith 3 - a) Nifer y staff a gafodd eu hyfforddi yn y Gymraeg at lefel benodol o gymhwyster

b) Nifer y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith

Datblygu sgiliau Cymraeg	
Gloywi Siarad – A	2
Gloywi Siarad – B	2
Cymraeg yn y Gweithle	
Mynediad 1	9
Mynediad 2	10
Canolradd 1	3
Canolradd 2	4
Sylfaen 1	3
Sylfaen 2	1
Ymwybyddiaeth iaith – modiwl e-ddysgu	215
Cymraeg i Ofalwyr sy'n gweithio gyda'r henoed	17
Cyfanswm	266

Dangosydd Iaith 4 - Nifer a % y staff sy'n gweithio i'r Cyngor sy'n gallu siarad Cymraeg

- fesul isadran gwasanaeth
- fesul gweithle (swyddfa, canolfan a phrif swyddfeydd)
- fesul graddfa gyflog

Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod haf 2011 trwy gyfrwng awdit ar e-bost ac wrth ddefnyddio Polisi Meta Cydymffurfio'r adran TG. Gofynnwyd i'r holl staff sy'n gweithio mewn swyddfeydd i lanw holiadur ar-lein gyda'u manylion am eu sgiliau ieithyddol Cymraeg a Saesneg ar gyfer siarad ac ysgrifennu. Mae'r wybodaeth wedi cael ei fwydo i raglen Adnoddau Dynol y Cyngor ac mae'n fwriad bod Rheolwyr yn gallu gweld proffil ieithyddol tîm drwy ddefnyddio'r rhaglen. Wrth benodi aelodau newydd o staff, mae'r wybodaeth sydd ar ffurflen gais yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei fwydo i'r rhaglen ar yr un pryd â gwybodaeth berthnasol arall.

Dyma ganlyniadau'r arolwg sgiliau iaith yn ôl yr hunan asesiad a gwblhawyd yn 2011. Mae'r wybodaeth yn cynnwys peth data am staff ysgolion a gofaluwr mewn cartrefi preswyl gan roedd yr awdit yn berthnasol i bawb sydd â mynediad i gyfrifiaduron y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi cael peth problemau wrth gasglu'r holl ddata wrth staff felly mae'n bosib bod rhai wedi ymateb i un rhan o'r holiadur.

Mae'r colofnau 'dim manylion' ar y tablau isod yn cynnwys staff nad ydynt yn gweithio mewn swyddfa a does dim mynediad ganddynt i gyfrifiadur y Cyngor ac hefyd staff nad ydynt wedi mewngofnodi i'w cyfrifiadur ers amser hir iawn gan gynnwys y rhai a oedd yn absennol o'u gwaith.

	Cyfanswm	Lefel Siarad						Dim manylion	Lefel Ysgrifennu					
		1	2	3	4	5	6		1	2	3	4	5	Dim manylion
Adran														
Y Prif Weithredwr	303	32	34	21	16	37	66	97	58	14	34	23	62	112
Addysg a Gwasanaethau Plant	4776	134	97	113	78	145	268	3941	211	75	97	108	310	3975
Adfywio a Hamdden	444	47	50	50	33	46	55	163	68	48	48	34	69	177
Adnoddau	351	45	28	42	32	49	55	100	70	21	33	44	53	130
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1027	213	129	128	147	112	152	146	316	75	98	73	160	305
Yr Amgylchedd	865	85	42	68	56	98	104	412	119	43	78	67	116	442

Graddfa Gyflog	Cyfanswm	Lefel Siarad						Dim manylion	Lefel Ysgrifennu					
		1	2	3	4	5	6		1	2	3	4	5	Dim manylion
A	1141	107	45	33	40	48	57	811	142	24	35	31	75	834
B	611	15	9	12	14	17	28	516	16	13	13	16	30	523
C	495	79	70	52	47	41	54	152	127	38	38	29	72	191
D	1029	122	65	74	94	95	124	455	168	59	67	61	159	515
E	713	34	23	24	24	64	91	453	47	14	44	40	101	467
F	617	59	32	59	39	41	69	318	83	35	34	40	58	367
G	303	28	24	40	17	51	50	93	45	24	37	32	51	114
H	205	17	22	27	20	30	35	54	40	11	27	24	37	66
I	227	34	29	27	21	34	42	40	54	22	32	23	40	56
J	133	19	14	25	17	15	25	18	32	15	14	13	23	36
K	93	12	18	13	4	16	19	11	27	5	14	12	16	19
L	70	14	6	12	9	6	14	9	24	3	12	9	10	12
M	18	2	2	2	2	3	4	3	4	2	2	2	4	4
N	38	3	7	6	3	5	9	5	9	1	2	2	10	14
Pennaeth Gwasanaeth	13	1	3	2	0	2	3	2	6	1	0	1	3	2

Mae'r wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno uchod yn unol â phrif raddfa gyflog y Cyngor.

	Cyfanswm	Lefel Siarad							Lefel Ysgrifennu						
		1	2	3	4	5	6	Dim manylion	1	2	3	4	5	Dim manylion	
Neuadd y Sir, Caerfyrddin	197	19	12	21	18	27	33	67	33	8	21	23	32	80	
Parc Dewi Sant	777	76	55	52	40	63	118	373	121	38	61	46	105	406	
Parc Myrddin	152	14	15	19	9	17	23	55	25	12	19	14	21	61	
Municipal, Llandeilo	74	7	8	6	6	6	22	19	14	6	8	8	17	21	
3 Stryd Spilman	170	16	11	14	27	30	30	42	25	6	21	21	28	69	
5 Stryd Spilman	24	2	3	4	2	3	4	6	5	1	3	2	4	9	
7/8 Stryd Spilman	27	2	1		3	5	7	9	3	1	4	4	6	9	
Porth y Dwyrain	59	9	7	8	6	5	8	16	16	4	5	4	6	24	
Parc Amanwy	77	5	12	11	16	15	18	0	12	11	12	12	15	15	
Ty Elwyn	167	31	24	32	7	19	17	37	53	16	19	10	18	51	
Ty'r Nant	59	16	6	10	6	5	9	7	20	7	9	6	17	59	
Coleshill	27	5	3	4	3	1	3	8	6	7	0	1	2	11	
Canolfannau Hamdden	191	19	23	20	14	16	21	78	28	26	14	14	29	80	
Llyfrgelloedd	68	2	3	9	5	7	10	32	4	4	9	4	12	35	

Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn crynhoi gwybodaeth oddi wrth staff nad ydynt wedi'u lleoli mewn swyddfa a sydd heb gyswllt â chyfrifiadur. Mae'r adran Gofal Cymdeithasol wedi cwblhau'r awdit a gweler y canlyniadau isod:

Enw'r Cartref	Nifer o staff	Nifer sy'n gallu siarad Cymraeg	Canran sy'n gallu siarad Cymraeg	Nifer sy'n gallu siarad Saesneg	Canran sy'n gallu siarad Saesneg	Nifer sy'n gallu ysgrifennu Cymraeg	Canran sy'n gallu ysgrifennu Cymraeg	Nifer sy'n gallu ysgrifennu Saesneg	Canran sy'n gallu ysgrifennu Saesneg
Tir Einon	28	8	28.6	28	100	6	21.4	28	100
Tawelan	32	9	28.1	29	90.6	10	31.3	31	96.9
Tegfan	33	16	48.5	32	97.0	11	33.3	32	97.0
Maesllewellyn	41	16	39.0	40	97.6	9	22.0	40	97.6
Y Plas	34	4	11.8	34	100.0	2	5.9	33	97.1
Dolyfelin	40	20	50.0	39	97.5	14	35.0	39	97.5
Domiciliary Care	288	117	40.6	285	99.0	87	30.2	286	99.3
Caemaen	35	9	25.7	35	100.0	9	25.7	34	97.1
Cwmaman	9	5	55.6	9	100.0	3	33.3	8	88.9
Myrddin Day Centre	5	1	20.0	5	100.0	0	0.0	5	100.0
Awel Tywi	36	17	47.2	36	100.0	11	30.6	34	94.4
Glanmarlais	28	16	57.1	28	100.0	9	32.1	28	100.0
Llys y Bryn	58	23	39.7	58	100.0	17	29.3	57	98.3
Y Bwthyn	27	6	22.2	27	100.0	3	11.1	27	100.0
Cyfanswm	694	267	38.5	685	98.7	191	27.5	682	98.3

Mae'r gwaith hyn o gasglu'r data yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl oherwydd bod y swyddogion dan sylw yn llenwi holiaduron papur ac mae'n rhaid bwydo'r wybodaeth i'r system gyfrifiadurol. Bydd y Cyngor yn casglu'r data oddi wrth weddill adrannau'r sir yn 2015/16.

6. Prif ffrydio

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, rydym wedi parhau â'r gwaith o hyrwyddo ein gwasanaethau i gwsmeriaid Cymraeg.

Strategaeth Gymunedol Integredig

Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin, mewn cytundeb â phob un o'r partneriaethau strategol, wedi cytuno ar Strategaeth Gymunedol Integredig sy'n nodi'r trywydd i'r sir o 2011 tan 2016, gan ymgorffori'r dogfennau canlynol oedd yn cael eu cyhoeddi ar wahân yn y gorffennol:

- Cynllun Plant a Phobl Ifanc
- Strategaeth Tlodi Plant
- Strategaeth Gymunedol
- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Cynllun Diogelwch Cymunedol
- Cysylltiadau yn Sir Gaerfyrddin (Strategaeth Adfywio)
- Cynllun Gweithredu Amgylcheddol

Mae'r Strategaeth Gymunedol Integredig yn canolbwyntio ar bum canlyniad strategol, sydd yn cyfrannu at y weledigaeth drosfwaol i'r sir. Y weledigaeth honno yw "Galluogi pobl i fyw bywyd iach a chyflawn trwy gydweithio i greu cymunedau cadarn, dwyieithog a chynaliadwy".

A'r pum nod strategol yw

- Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
- Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
- Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
- Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
- Bod gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy llewyrchus

Gellir gweld manylion pellach o ran yr iaith Gymraeg drwy Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Gymunedol Integredig ar wefan Partneriaeth Sir Gaerfyrddin www.partneriaethsirgaerfyrddin.org.uk

Yr iaith Gymraeg yn y Gymuned

Yn sgil adroddiad Gweithgor y Cyfrifiad, un o'r argymhellion oedd sefydlu Fforwm Strategol Sirol sy'n cynnwys partneriaid a mudiadau sy'n gweithredu er budd y Gymraeg yn y sir. Un o amcanion y Fforwm yw gweithredu ar y cyd er mwyn cryfhau capasiti cynllunio iaith. Mae'r Fforwm o dan arweiniad y Mentrau wedi dewis gweithio'n ddwys mewn tair ardal drefol a thair ardal wledig yn dilyn derbyn tystiolaeth Dr Dylan Phillips ar sefyllfa'r Gymraeg yn y sir. Comisiynodd y Cyngor Dr Dylan Phillips i ddadansoddi ystadegau'r Cyfrifiad fel rhan o'r gwaith o gasglu tystiolaeth ar gyfer Gweithgor y Cyfrifiad.

Yr iaith Gymraeg yng Ngofal Cymdeithasol

Mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol ym mhob sefyllfa pan mae gweithiwr cymdeithasol, therapydd, nyrs neu ofalwr yn delio â'r cyhoedd, yn enwedig os yw'r unigolyn yn agored i niwed neu mewn sefyllfa o argyfwng.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod yr iaith Gymraeg wrth wraidd ein holl wasanaethau. Rydym yn gweithio at weithredu fframwaith strategol Llywodraeth Cymru "Mwy na Geiriau". Nid yn unig cwrdd â meincnod y fframwaith yw uchelgais yr Adran Gofal Cymdeithasol ond i fynd ymhellach na'r disgwyliadau¹.

Mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio ar gynllun tair blynedd o 2013-2016 i sicrhau bod:

- 1 – iaith unigolion yn cael ei gofnodi'n gywir ac yn gyson bob amser;
- 2 – staff sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael ar gyfer anghenion y boblogaeth;
- 3 – unigolion yn derbyn gwasanaeth gan staff sy'n siarad Cymraeg os yw'r cofnod yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg.

¹ Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr iaith Gymraeg ac mae pob cyfeiriad at ddwyieithrwydd ayyb yn cyfeirio at y Gymraeg a'r Saesneg. Mae rhan arall o'r adroddiad yn ystyried gwybodaeth a ddarperir mewn ieithoedd a fformatau hygyrch eraill.

Nid her fach yw hyn gan fod y ganran o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin ymhlith yr ystod oed gweithio yn sylweddol is na chanran y siaradwyr Cymraeg o fewn poblogaeth hŷn y sir. Fodd bynnag, mae Sir Gaerfyrddin wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau yn iaith gyntaf siaradwyr Cymraeg a bydd yn adrodd ar ei lwyddiannau a'r heriau yn rheolaidd wrth ymgymryd â'r gwaith dros y tair blynedd nesaf.

Er mwyn gwneud y gorau o'r Cynnig Rhagweithiol mae'n bwysig cytuno ar 'sut mae arfer dda yn edrych' ym mhob maes gwasanaeth o fewn yr adran. Dyma fydd dyhead pob maes gwasanaeth gyda mesurau perfformiad wedi'u cynllunio i adolygu effaith unrhyw ymyriadau a wnaed.

Mwyhau'r Cynnig Rhagweithiol

Diffiniad o'r Cynnig Rhagweithiol yn unol â Maes Gwasanaeth:

Yn sail i'r cynnig rhagweithiol y mae'r egwyddorion y dylasai pob aelod o staff:

1. Ymgymryd â hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith
2. Gallu defnyddio ymadroddion o ddydd i ddydd (ALTE² Lefel 1)
3. Dylasai canran y defnyddwyr gwasanaeth (ym mhob maes gwasanaeth) sy'n siarad Cymraeg gyfateb â chanran y staff sy'n medru'r Gymraeg, gydag eithriadau fel y nodir isod

Maes Gwasanaeth	Cynnig Rhagweithiol - Sut mae arfer dda yn edrych
<u>Canolfannau Cyswllt:</u> I gynnwys – Llinell Ofal+, Canolfan Gyswllt, MASH etc	<ol style="list-style-type: none"> 1. Ateb galwadau'n ddwyieithog 2. Staff yn ymateb yn iaith y cyswllt
<u>Timoedd/Gweithwyr Asesu:</u> I gynnwys – 'timoedd asesu' (plant), timoedd hir dymor (plant), timoedd Maethu, timoedd Mabwysiadu, timoedd AD, CMHT, AMHT, Timoedd Adnoddau Cymunedol.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Sefydlu iaith y defnyddiwr 2. Cydweddu'r gweithwyr â'r sgiliau priodol i'r defnyddiwr gwasanaeth
<u>Gwasanaethau wedi'u teilwra:</u> I gynnwys - Gofal plant/cylchoedd chwarae,	<ol style="list-style-type: none"> 1. Ar gael yn ddwyieithog neu yn y naill iaith fel sy'n briodol

² Cymdeithas Profwyr Ieithoedd yn Ewrop – Lefel 2 cyfredol yn Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor

<p>grwpiau dementia, grwpiau cadwraeth ynni, rhaglenni arbenigol i gleifion</p>	
<p><u>Darparu gwasanaethau i grwpiau:</u> I gynnwys – canolfannau teulu, Canolfannau Plan Integredig, gwasanaethau dydd ayyb</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Sefydlu iaith y defnyddiwr 1. Cydweddu'r gweithwyr â'r sgiliau priodol i'r defnyddiwr gwasanaeth
<p><u>Darparu gwasanaethau i unigolion:</u> I gynnwys - Gofal cartref (yn fewnol ac a gomisiynwyd), gwasanaethau penodol dementia, gwasanaeth ymateb brys, gwasanaeth ail-alluogi, gwasanaethau dydd AD ayyb</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Sefydlu iaith y defnyddiwr 2. Cydweddu'r gweithwyr â'r sgiliau priodol i'r defnyddwyr gwasanaeth 3. Siaradwr Cymraeg ar gael 24/7
<p><u>Gwasanaethau Preswyl:</u> I gynnwys - Gofal Preswyl, gofal seibiant, gwasanaethau ymadfer, seibiant AD ayyb</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Sefydlu iaith y defnyddiwr 2. Cydweddu'r gweithwyr â'r sgiliau priodol i'r defnyddwyr gwasanaeth 3. Siaradwr Cymraeg ar gael 24/7
<p><u>Dros y ffôn a chyswllt arall:</u> I gynnwys – Staff Cefnogi Busnes, staff swyddfa sy'n ateb galwadau ffôn</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Ateb galwadau'n ddwyieithog yn unol â pholisi'r Cyngor 2. Cynnig mynediad at siaradwyr yr iaith briodol 3. Ymateb i gyfathrebu ysgrifenedig yn iaith yr ohebiaeth

Er mwyn mwyhau'r cynnig rhagweithiol mae arolygon staff eisoes wedi nodi nifer y staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn y meysydd gwasanaeth gwahanol ac mae ymgyrch hefyd i gofnodi'n fwy cywir defnydd iaith defnyddwyr gwasanaeth.

Mae Pencampwyr iaith Gymraeg wedi cael eu recriwtio o bob maes gwasanaeth a'u rôl yw:

- Mentora dysgwyr newydd
- Hyrwyddo 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg mewn Gofal
- Cynyddu hyder ysgrifennu yn Gymraeg
- Helpu pob gwasanaeth i fabwysiadu'r polisi iaith Gymraeg

- Cynnig cymorth a chyngor – dangos i bobl beth allant wneud i ddysgu Cymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith
- Darparu adborth am faterion a phryderon, adrodd nôl beth yw'r pethau sy'n atal pobl rhag defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith.

Bydd pencampwyr iaith Sir Gaerfyrddin yn cymryd rhan mewn grŵp Dysgu Gweithredol, yr un cyntaf ar gyfer gofal cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg, a fydd yn ystyried ymhellach y ffyrdd gorau i fwyhau'r cynnig rhagweithiol.

Mae'r holl wybodaeth gyhoeddus ar gyfer gofal cymdeithasol eisoes yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog ac ar gael i'r cyhoedd. Mae'r arfer gorau yn cael ei defnyddio trwy gyhoeddi pob taflen / llyfryn gyda'r fersiwn Cymraeg a'r Saesneg cefn wrth gefn, gan alluogi'r cyhoedd i gael mynediad at eu dewis iaith heb iddynt orfod gofyn amdano.

Llinell gofal+ yw'r cyswllt cyntaf ar gyfer y mwyafrif o ddefnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd. Mae rhan fwyaf o'r staff yn siaradwyr Cymraeg sy'n galluogi ymateb dwyieithog. Darperir y gwasanaeth 24 awr y dydd dros 7 diwrnod yr wythnos ac mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod siaradwr Cymraeg ar gael bob amser. Er mwyn sicrhau bod gofal cymdeithasol yn gwybod beth yw dewis iaith pob unigolyn, ychwanegwyd dau gwestiwn gorfodol i'r system yn ystod 2013 ar gyfer y rhai sy'n ateb y galwadau i ofyn a chofnodi ar y gronfa ddata gyfrifiadurol. Y cwestiynau yw:

- Ieithoedd yr ydych yn siarad
- Iaith gyntaf

Rhennir y wybodaeth gyda'r timau gofal cymdeithasol sy'n penderfynu ar y gweithiwr mwyaf priodol i ymweld â'r unigolyn os oes angen. Ar hyn o bryd, mae rheolwyr yn ystyried yn rheolaidd iaith yr unigolyn wrth wneud hyn, ond nid yw'n gyson eto.

Anogir staff yn rhagweithiol i gynnal asesiadau a sgysiau gydag unigolion yn yr iaith naturiol a siaredir ac a ddewiswyd gan yr unigolyn. Gellid darparu pob asesiad a gwaith papur yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl y gofyn.

Comisiynir gwasanaethau gofal ar gyfer unigolion a gofynnir am anghenion ieithyddol fel bo'n briodol yn ôl barn broffesiynol. Mae staff gofal cartref a staff gofal preswyl sy'n gweithio yn yr ardaloedd sy'n bennaf siarad Cymraeg yn Aman Gwendraeth a Tywi, Teifi a Taf yn aml yn siarad Cymraeg, gan alluogi pobl i siarad Cymraeg heb yr angen i 'fynegi dewis'.

Mae Gwasanaeth Offer Cymunedol Integredig Sir Gaerfyrddin yn cyflogi staff sy'n siarad Cymraeg sy'n galluogi cyfathrebu yn dewis iaith yr unigolion bob amser wrth fynd a gosod offer yng nghartrefi pobl.

Mae pob cytundeb lefel gwasanaeth gyda darparwyr trydydd sector yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth i gydymffurfio â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac â Chynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod. Ar ben hynny, mae'r Awdurdod (drwy ei brosesau rheoli cytundeb) yn adolygu pob cytundeb lefel gwasanaeth gyda darparwyr gwasanaethau yn rheolaidd i wirio cydymffurfiaeth a disgwyliad yr Awdurdod yw y bydd dewis iaith y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diwallu'n briodol.

Mae'r Adran dysgu a datblygu yn cefnogi datblygu sgiliau iaith Gymraeg staff a staff y sector annibynnol a gomisiynwyd. Mae'r amrywiaeth o gyrsiau yn cynnwys:

- Prosiect e-ddysgu Equal
- Amrywiaeth o gyrsiau Cymraeg i oedolion ar bob lefel (dechreuwyr, canolradd, uwch, Cymraeg yn y gweithle, cyrsiau gloywi iaith), cyrsiau mae nifer o staff yn manteisio arnynt.
- Mae cwrs newydd wedi'i gyflwyno a ddatblygwyd yn Sir Gaerfyrddin, a elwir Cwrs Cymraeg i Ofalwyr yr Henoed, sydd ar gael ar gyfer staff mewnol a staff gwasanaethau gofal a gomisiynir. Enillodd y cwrs hwn wobwr yng Ngwobrau Cymraeg Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2014.

Fel rhan o'u fframwaith proffesiynol, anogir Gweithwyr Cymdeithasol mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i archwilio anghenion ac amrywiaeth yr iaith Gymraeg.

O fewn y Gwasanaethau Plant, mae'r gwaith canlynol wedi ei wneud:

- Wrth i'r adran Gwasanaethau Plant gytundebu Gofal Plant (o dan 4) mae'n ofynnol bod pob darparwr yn darparu gwasanaeth dwyieithog neu Gymraeg yn unig (cytundebu sylweddol yn cael ei wneud trwy Dechrau'n Deg)
- Mynychodd holl ddarparwyr gwasanaethau o fewn Teuluoedd yn Gyntaf gyrsiau Ymwybyddiaeth iaith Gymraeg
- Bwriedir cynnal awdit hunanasesiad mewn perthynas â darparu gwasanaethau dwyieithog o fewn gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf yn 2014/15

- Bwriedir galluogi Gofalwyr Maeth i gael mynediad at hyfforddiant iaith Gymraeg o fewn cynlluniau iaith y Cyngor Sir ac i hyrwyddo hynny.

Ar hyn o bryd mae'r adran gofal cymdeithasol yn gweithio tuag at fynd ymhellach na disgwyliaidau'r Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 'Mwy na Geiriau', gan gefnogi unrhyw un sydd angen i'w gofal gael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg, er budd cyhoedd Sir Gaerfyrddin.

7. Dadansoddiad o berfformiad fesul blaenoriaeth / targed

Nodwyd ar ddechrau ein Cynllun Iaith y blaenoriaethau a'r amcanion ar gyfer gweithrediad y Cynllun. Hefyd, mae'n rhaid sicrhau y bydd pawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor yn medru gwneud hyn yn ôl eu dewis iaith. Mi fyddwn yn cymryd camau uniongyrchol gydag unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth ac yn anelu i ddatrys unrhyw broblemau.

Adnabod risgiau a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf

Mae'r Cyngor wedi cyfrannau at ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Safonau Iaith newydd. Bydd y Cyngor yn cydweithio gyda'r Comisiynydd yn ystod yr ymgynghoriad nesaf a fydd yn gosod amserlen ar gyfer y Rheoliadau sy'n berthnasol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwaith i'w wneud er mwyn cyrraedd rhai o'r Safonau gan gynnwys:

- Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau sy'n cynnwys yr holl adroddiadau sy'n mynd gerbron y Cyngor llawn a'r Bwrdd Gweithredol.
- Safonau ynghylch peiriannau hunanwasanaeth.
- Hyfforddiant i staff.
- Bydd angen paratoi ar gyfer cofnodi dewis iaith aelodau o staff wrth dderbyn dogfennau yn ymwneud ag hyfforddiant, amcanion perfformiad, cynllun gyrfa ac ati.
- Bydd angen cynnwys cwynion gan staff ar y system gwynion.
- Bydd angen edrych ar holl ddeunydd y Cyngor Sir sy'n ymwneud â thechnoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth.

- Bydd angen cadw cofnod o'r nifer o swyddi newydd a swyddi gwag a'u categori iaith.

8. Cyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad

Bydd yr adroddiad blynyddol yma'n cael ei osod ar wefan a mewnwyd y Cyngor, gan nodi'n glir y manylion cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau. Byddwn hefyd yn cyhoeddi erthygl ym mhapur 'Newyddion Sir Gâr' sef papur rhwng sefydliadau Sir Gaerfyrddin ar ôl derbyn adborth.

9. Dangosyddion Cynllun Iaith

Mabwysiadwyd y dangosyddion isod hefyd yn rhan o Gynllun Iaith y Cyngor, fel atodiad i'r rhai a nodwyd uchod. Mae'r Cyngor wedi adrodd ar y dangosyddion hyn yn flynyddol, ac roedd canlyniadau'r ymarferion monitro a gomisiynwyd gan y Cyngor ers Ebrill 2006 yn ein galluogi i wneud hyn. Daeth y cytundeb monitro i ben diwedd Mawrth 2014 felly nid oes modd i ni adrodd ar y dangosyddion canlynol ar gyfer 2014/15.

Dangosydd Iaith 6 - % yr ohebiaeth Gymraeg a gafodd ei hateb cyn pen yr amserlen a gafodd ei phennu

Dangosydd Cynllun Iaith 7 - % y galwadau ffôn a gafodd eu hateb yn ôl gofynion y Cynllun Iaith

Dangosydd Cynllun Iaith 8 - % y peiriannau ateb sydd â negeseuon dwyieithog yn unol â gofynion y Cynllun Iaith

Dangosydd Cynllun Iaith 9 - % y cyfarfodydd â'r cyhoedd a gafodd eu cynnal yn ôl gofynion y Cynllun Iaith

Dangosydd Cynllun Iaith 10 - % y derbynfeydd sydd yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith

Dangosydd Cynllun Iaith 11 - % y polisiâu, y strategaethau, ac ati, a gafodd eu creu yn ôl gofynion y Cynllun Iaith

O'r sampl a gymerwyd gan yr Uned Gyfathrebu, mae'r holl strategaethau / polisiâu ac ati a gyhoeddwyd yn unol â'r Cynllun Iaith. Rydym yn ymwybodol o rai dogfennau arbenigol sydd wedi eu cyhoeddi ar wahân ond mae hyn yn unol â chanllaw'r Cynllun.

Dangosydd Cynllun Iaith 12 - % yr ymgynghoriadau cyhoeddus a gydymffurfiodd â gofynion y Cynllun Iaith

Casglwyd sampl o 5 ymgynghoriad cyhoeddus eleni gan gynnwys gweithgareddau'r Panel Dinasyddion a'r Fforwm 50+. Roedd pob un o'r ymarferion yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith.

11. Manylion cyswllt

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at:

Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg / Swyddog Polisi a Phartneriaeth

Polisi a Phartneriaeth

Cwsmeriaid a Pholisi

Adran y Prif Weithredwr

Cyngor Sir Gâr

Neuadd y Sir

Caerfyrddin

SA31 1JP

01267 224008 / 224914

laithGymraeg@sirgar.gov.uk

WelshLanguage@carmarthenshire.gov.uk



Adroddiad 2014-15